

Cyngor Celfyddydau Cymru

Rhaglen Ddatblygu Camau Creadigol (Cam 1)

Hydref 2011





Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Rhaglen Ddatblygu Camau Creadigol (Cam 1)

Yr hyn y ceisiwn ei wneud

Mae gennym weledigaeth o Gymru'n wlad lle gall bob math o bobl fwynhau'r celfyddydau yn gynulleidfaoedd, yn ymgyfranogwyr ac yn artistiaid. Caiff ystod eang o artistiaid gyfle i greu gwaith amrywiol, perthnasol i bob math o bobl a chymunedau. Rydym yn ymwybodol o'r dystiolaeth am gydraddoldebau a gasglwn nad ydym ar hyn o bryd yn cyrraedd ystod o bobl sydd mor eang ag y gallai fod.

Mae Camau Creadigol yn rhan o'n cynllun i sicrhau y caiff artistiaid gorau Cymru y cyfle i greu, datblygu a rhannu eu gwaith. Manylia'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol (i'w gyhoeddi ym Mawrth 2012) ar beth arall a gyflawnwyd ac sydd ar y gweill. Â Camau Creadigol i'r afael ag anghydraddoldeb. Ond mae'n gwerthfawrogi a dathlu cyfoeth pob diwylliant a phobl yn y Gymru sydd ohoni. Ceisiwn wneud y canlynol:

- cael greu a chyflwyno safon uwch o waith celfyddydol gan ystod ehangach o bobl
- cael rhagor o bobl i brofi a mwynhau'r gwaith hwnnw

Gwnawn hyn drwy: .

- cefnogi artistiaid a sefydliadau o ystod o gefndiroedd i ddatblygu eu gwaith
- eu cefnogi i greu cysylltiadau â lleoliadau a phobl eraill a all fod o gymorth wrth arddangos eu gwaith

Gwyddom fod yng Nghymru y posibiliadau i gael dimensiwn newydd i'r gwaith a ariannwn. Cydnabyddwn fod rhai o'r artistiaid wedi wynebu rhwystrau i ddatblygu neu rannu eu gwaith. Mae'r rhaglen ddatblygu hon ar gyfer artistiaid i ddymchwel y rhwystrau hyn.

A yw'r rhaglen hon i chi?

Mae'n agored i bob artist, sefydliad neu grŵp yng Nghymru. Ond ei diben yw estyn ystod yr artistiaid a'r sefydliadau a gaiff ein harian. Felly chwiliwn am y rhai sy'n cynhyrchu gwaith difyr ond heb gael arian gennym yn y gorffennol.

Yn benodol hoffem gefnogi'r rhai a brofodd rwystrau wrth gael arian. Efallai fod dylanwad diwylliant llai cyfarwydd i ni ar eich gwaith. Neu efallai nad oedd eich ffyrdd o weithio wedi gweddu'n dda â'n prosesau ariannu arferol. Os yw ansawdd eich gwaith yn uchel ac y gallai gyfrannu at yr ystod a ariannwn, rydym am glywed gennych. Hoffem gael gwybod am ffyrdd newydd o gydweithio.

Rydym am weithio gyda chi'n arbennig os profasoch rwystrau sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchoddedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (oed, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol). Deallwn fod rhai pobl yn profi rhwystrau sy'n gysylltiedig â sawl maes uchod.

Trafodwn gyda chi a yw'r rhaglen i chi. Ystyriwn hefyd a fydd eich ariannu yn ein helpu i gyrraedd ystod ehangach o bobl. Ystyriwn y canlynol:

- **yr hyn a ddywed ein data ariannu.** Gwyddom y dylai artistiaid Byddar, anabl, duon ac ethnig fod yn flaenoriaeth. Mae manylion pellach yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blyneddol [2010/11](#).
- **Yr hyn a ddywed ein Harolwg Celfyddydau Cymru 2010.** Dywed mai hon ddylai fod yn flaenoriaeth gennym: datblygu gwaith gan (ac ar gyfer) y canlynol - pobl Fyddar ac anabl, yn y grŵp cymdeithasol DE, y rhai heb gymwysterau a'r rhai dros 65 oed. Mae rhagor o fanylion am ein harolwg ar ein gwefan: <http://www.celfcymru.org/beth-a-wnawn/ymchwil/ymchwil-gyfredol/celfyddydaucymru-2010>
- **Yr hyn a ddywed ymchwil arall.** Cawn wybod y diweddaraf am y dystiolaeth a gesglir gan eraill a'i hystyried. Er enghraifft, dywed ymchwil ddiweddar gan Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru fod pobl â phroblemau iechyd meddwl, teithwyr o Sipsiwn, pobl drawsrywiol a cheiswyr lloches a ffoaduriaid wedi profi rhagor o agweddau negyddol, rhagfarn a bod yn ynysig na phobl eraill yng Nghymru. http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/Wales/not_just_another_statistic_email.pdf
- **Yr hyn a gawn wybod am brofiadau ac agweddau pobl â nodweddion gwarchoddedig na ddechreuwn gasglu data amdanynt eto.** Er enghraifft, ni chasglasom ddata am bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol neu am grefydd a chred. Ond dechreuasom siarad â phobl. Dysgasom fod eisiau i ni feddwl am sut yr adlewyrchir profiadau pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol yng ngwaith artistig Cymru.

Mae'r esiamplau hyn ond yn fan cychwyn. Newidiant pan gawn wybod pwy a gaiff ein harian a phwy na chaiff.

Beth a all y rhaglen gynnig i chi?

Sefydlir y rhaglen mewn dau gam. *Egyr cam 1* yn Hydref 2011 gan roi cyfle i chi drafod eich syniad gyda ni a sut yr hoffech ei ddatblygu. Os cewch eich derbyn i'r rhaglen, *gallwch gael arian, cyngor ac arweiniad am y canlynol:*

- datblygu eich syniad

- datblygu ochr fusnes eich gwaith
- cysylltu â rhwydweithiau newydd a datblygu partneriaethau
- dod o hyd i lwyfannau addas ar gyfer eich gwaith

Bydd cyflawni hyn yn dibynnu ar yr hyn sydd arnoch ei angen i ddaearu eich syniad yn gadarn. *Mae'n rhaglen hyblyg.* Gallwn drafod sut i ddatblygu eich syniad a'ch cysylltu â phobl a allai eich helpu. Cyhoeddwn sut y gweithia Cam 2 o'r rhaglen yng Nghlanllawiau'r Loteri yn Chwefror 2012. *Ond bywiogi syniadau cam 1 fydd ei brif ddiben a chyflwyno gwaith addas i'r cyhoedd.* Ond canolbwyntiwn yn awr ar gam 1 a weithia fel a ganlyn:

Cam 1

– cysylltu â ni gan ddweud wrthym amdanoch chi a'ch syniad

Trafodwn eich syniad a sut i'w ddatblygu a'i brofi a pha sgiliau sydd arnoch eu hangen i wneud hynny. Gallai hyn gynnwys:

- profi eich syniad neu greu gwaith sy'n mynd rhagddo. Gallai hyn eich helpu i benderfynu a ydych am ei ddatblygu'n bellach a sut.
- Cwrdd â phobl a all eich arwain i ddatblygu eich sgiliau mewn meysydd penodol e.e. marchnata neu gynllunio (mentora)
- Mynd i weld gwaith eraill i ddysgu ganddo. Gall hyn gynnwys trafod ag eraill am sut y datblygasant eu gyrfa neu eu sefydliad. Efallai y gwyddoch yn barod gyda phwy hoffech gysylltu. Gall y rhaglen sicrhau bod hyn yn digwydd. (mynd i weld)
- Mynd i hyfforddiant datblygu.
- Cymryd cyfle i gysgodu rhywun yn ei waith.

Dywedwn wrthyhych os nad ydym o'r farn y bydd y rhaglen yn addas i chi a'ch cyfeirio at gyfleoedd eraill os gallwn.

Cam 2 - datblygu eich cynnig gyda'n cymorth.

Gweithiwn gyda chi i ddatblygu eich cynnig. Bydd yn ddisgrifiad o'r hyn a wnewch. Trafodwn gyda chi am y syniadau artistig a busnes yr hoffech eu datblygu. Os oes arnoch angen cymorth i ysgrifennu eich cynnig, rhoddwn ef. Rhoddwn gymorth hefyd wrth gostio eich cynnig a dweud wrthyhych faint o arian i'w geisio. Gallwn roi'r holl arian yng Ngham 1

felly nid oes raid i chi chwilio am ragor ar y cam hwn. Ond bydd arnoch angen dod o hyd i arian arall yng Ngham 2 i weithredu eich cynnig. O gofio hyn, o bosibl awgrymwn i chi ystyried codi arian ar gyfer cam 2 yn rhan o gam 1.

Cam 3 – rhowch eich cynnig i ni

Gofynnwn i chi daro ar bapur yr hyn yr ydych am ei wneud. Peidiwch â phoeni, nid ffurflen hir sydd gennym. Rhowch wybodaeth sylfaenol i ni amdanoch chi a'ch sefydliad, am yr hyn yr ydych am ei wneud a'r gost. Byddwn wedi gweithio gyda chi i lunio hyn oll (gweler cam 2). Efallai gofynnwn am ragor o ddeunydd (er enghraifft, lluniau o'ch gwaith, dolen i wefan, dvd ohonoch yn disgrifio eich gwaith). Nid oes dyddiadau cau i'ch poeni, felly gallwn gytuno ar gyflwyno pan fo'r cynnig yn barod.

Cam 4 – ystyriwn eich cynnig a rhoi gwybod i chi a gawsoch eich derbyn i'r rhaglen.

Erbyn hyn byddwn wedi trafod gyda chi a gwyddoch am ein diddordeb. Ond swm cyfyngedig o arian sydd ar gael (cyfanswm o £120,000 eleni – Hydref 2011-Mawrth 2012). Oherwydd hyn, mae'n bosibl na allwn roi'r holl arian neu unrhyw gyfran ohono i chi. Wrth benderfynu, ystyriwn y canlynol:

- Os wynebasoch rwystrau wrth ddatblygu eich gwaith yn y gorffennol (gweler tudalen 2)
- Os bydd eich ariannu yn estyn ein hystod o artistiaid (gweler tudalen 2-3)
- Safon y gwaith hyd yn hyn
- Y graddau y bydd eich cynnwys yn eich helpu i ddatblygu'r gwaith yn y tymor hir

Ystyriwn hefyd pa mor gryf yw'ch cynnig. Bydd arno angen ychwanegu dimensiwn newydd i'r gwaith a ariannwn yn barod. Rhaid i ni ymglyffroi am eich syniad a hyderu y gallwch ei wireddu. Ystyriwn hefyd:

- Os heria eich cynnig ein syniadau am amrywiaeth neu a allai herio ystrydebau .
- Sut gall eich syniad rannu ffyrdd diddorol o fynd ati o ran cynyddu hygyrchedd i'r celfyddydau.
- Y posibilid i'ch cynnig fagu cysylltiadau neu bartneriaeth ag artistiaid eraill. Ystyriwn a ddengys eich cynnig yn glir sut gall cydweithio gryfhau eich prosiect a darparu buddiant i bawb.

Peidiwch â phoeni os na chredwch y gallai eich cynnig gyflawni hyn oll – gallwch ganolbwyntio ar un o'r pwyntiau uchod yn unig. Bydd hynny'n iawn. Trafodwn hyn yng Ngham 2. Gallwch ofyn cwestiynau a gwybod am beth y chwiliwn cyn cyflwyno eich cynnig.

Dywedwn wrthych a gawsoch eich derbyn o fewn mis o gael eich cynnig. Penderfyna grŵp o swyddogion y Cyngor. Os na chewch eich derbyn, rhown reswm i chi.

Cam 5 – rhowch y rhaglen ar waith ac wedyn dweud wrthym amdani

Pan gytunwch y gallwch ymuno â'r rhaglen, trafodwn gyda chi sut y rhowch y rhaglen ar waith a sut i roi gwybod i ni am ei chynnydd. Bydd hyn yn wahanol i wahanol bobl gan ddibynnu ar yr hyn a wnewch ac ar hyd y peth. Ond cytunwn ar sut i gadw mewn cysylltiad yn rheolaidd. Efallai â popeth yn rhwydd. Efallai dewch o hyd i broblemau neu newid eich meddwl am yr hyn yr hoffech ei wneud. Mae'n rhaglen hyblyg a gallwn drafod newidiadau - ond cadwch mewn cysylltiad, da chi.

Ar ddiwedd cam 1, gofynnwn i chi ddweud wrthym sut yr aeth ac a hoffech ddatblygu'r syniad yn fwy a'i wireddu. Efallai y penderfynwch eich bod wedi cyrraedd y nod neu wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen gyda'r syniad. Mae'r ddau'n iawn. Os hoffech ddatblygu'r peth yn bellach, trafodwn y camau nesaf. Efallai y bydd yn bosibl datblygu eich cynnig drwy gam 2 neu efallai awgrymwyn ffordd arall o gael arian. Ni ddisgwyliwn gefnogi pawb i fynd ymlaen i gam 2, felly ystyriwn gynigion pawb yn erbyn y pwyntiau yng ngham 4 . Ariennir cam 2 drwy'r Loteri a chyhoeddir gwybodaeth am hyn yng Nghannllawiau'r Loteri yn Chwefror 2012.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Jennifer Stoves
Swyddog Prosiectau
Tîm Cynllunio a Datblygu
Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute
Caerdydd
CF10 5AL
Ffôn: 029 20441341
E-bost: Jennifer.stoves@celfcymru.org.uk

Rhai esiamplau o'r mathau o gynigion y gallwn eu hariannu

Dyma rai esiamplau sydd yn ein barn yn addas i'r rhaglen. Mae'n siŵr bod eraill gennych yn eich dychymyg. Ystyriwn unrhyw gynigion y gallwch brofi eu bod yn cyflawni amcanion y cynllun gan gydweddu â'i hamcanion.

Esiampl 1: Artist o dras Caribïaidd ydych a gawsai arian yn y gorffennol am hyfforddiant a phrosiectau bychain. Soniodd llawer am safon eich gwaith ond gawsoch drafferth ddod o hyd i gyfleoedd i arddangos eich gwaith. Nid yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon neu mewn digwyddiadau amrywiol, ond fel arall mae'n anodd i chi godi eich proffil. Teimlwch fod pobl yn gweld eich gwaith ond yn 'waith gan berson du' a hoffech gyrraedd cynulleidfa ehangach. Bydd angen i leoliadau cyflwyno ddeall eich gwaith a sut gallai lwyddo y tu hwnt i'ch cynulleidfaoedd craidd (yn eu tyb hwy). Gallai arian datblygu eich helpu i ymgysylltu â phartneriaid posibl a chynnal eich ymarfer.

Esiampl 2: Sefydliad celfyddydol ydych sydd â hanes hysbys o gynnal prosiectau. Hunaniaeth yw craidd eich gwaith a chydabyddir gan lawer ei fod yn ymdrin â storïau dan gêl neu heb eu deall yn iawn. Gwyddoch na allwch barhau i oroesi ar arian prosiect yn unig ond ni allwch gael y math o arian i gyflogi staff parhaol i symud y sefydliad ymlaen. Gall arian datblygu eich helpu i sefydlu cynllun busnes a phrofi ei hyfywedd dros amser gan dynnu ar arbenigedd busnes neu artistig (neu'r ddau).

Esiampl 3: Rydych yn sefydliad neu unigolyn sy'n poeni am ddiffyg cynnyrch celfyddydol yng Nghymru sy'n berthnasol i bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Hoffech weithio gydag eraill (e.e. artistiaid, lleoliadau neu sefydliadau lesbiaidd, hoyw a deurywiol) i fynd i'r afael â'r mater. Mae arnoch angen archwilio'r posibilïadau'n gyntaf cyn penderfynu sut y gwnewch rywbeth i ddatrys y broblem hon.

Esiampl 4: Artist Byddar neu anabl ydych â hanes hysbys o waith. Yn gyffredinol rydych yn gweithio ar eich pen eich hun efallai oherwydd y rhwystrau sydd o'ch blaen neu oherwydd natur eich ymarfer. Hoffech ymgysylltu ag artistiaid eraill i ystyried sut i ddatblygu eich ymarfer ond ymddengys nad oes llawer o gyfle i'w wneud. Hoffech ddod â grŵp o artistiaid at ei gilydd (efallai rhai Byddar neu anabl neu rai sy'n gweithio yn yr un gelfyddyd â chi) i archwilio ac arbrofi ac efallai i gydweithio neu adfywio eich ymarfer eich hun. Hoffech fod yno botensial i gymryd syniadau yn eu blaen wedyn.